BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAWRTH, 18, 2025

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Llanfachreth a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanfachreth**
**Nos Fawrth, Mawrth 18, 2025 am 7:30 o'r gloch.**
www.cyngorllanfachreth.cymru

**Presennol** Gerallt Griffith (Cadeirydd), Meurig Ashton, Karen Goswell, Peredur Jenkins, Rhun Prys Jones a Robin Jones. Henry M. Edwards.

**1. Croeso'r Cadeirydd**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

**2. Ymddiheuriadau:** Delyth Lloyd Griffiths, Llion Williams, Emlyn Roberts.

**3. Datgan diddordeb.**

Doedd neb yn datgan diddordeb.

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Chwefror 18, 2025.**

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Chwefror 18, 2025.**

Eitem 6.d. Llythyr (19/2/2025) gan Un Llais Cymru yn rhoi gwybod nid oes angen i Henry fod yn bresennol yn y cyfarfod. Mae angen cynghorydd i bleidleisio.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr (4/3/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod mae'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol wedi ei gohirio oherwydd nid oedd digon o gynghorwyr wedi archebu lleoedd. Bydd y Cyfarfod, mae'n debyg, cael ei gynnal ym mis Hydref.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Eitem 6.c. Llythyr (19/2/2025) oddi wrth Siân Gwenllian AS yn diolch am ein cefnogaeth i sefydlu Ysgol Ddeintyddol ym Mangor. Hefyd, llythyr (24/2/2025) oddi wrth Cyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol, Llywodraeth Cymru yn diolch am ein llythyr.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Eitem 1. Lythyr (4/3/2025) oddi wrth Hwylusydd Tai Gwynedd yn rhoi gwybod maent yn disgwyl ateb gan Cyngor Gwynedd i gael gwybod os ydynt angen eu gwasanaeth gydag ymgynghoriad.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr (7/3/2025) oddi wrth Hwylusydd Tai Gwynedd yn rhoi gwybod maent wedi cael cais gan Cyngor Gwynedd am adroddiad llawn ar dai yn Llanfachreth, Brithdir, Rhydymain, Llanelltyd a Ganllwyd. Rhoddwyd gwybod iddynt (7/3/3025) mai'r cytundeb gyda'r Cyngor Cymuned oedd i arolygu tai Llanfachreth yn unig.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr (7/3/2025) oddi wrth Delyth yn rhoi gwybod mai Cyngor Gwynedd fydd yn gyfrifol am yr holl waith o arolygu tai yr ardal ac nid y Cyngor Cymuned..

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr (14/3/2025) oddi wrth Hwylusydd Tai Gwynedd yn rhoi gwybod maent wedi cael cais gan Cyngor Gwynedd i wneud ymgynghoriad llawn ar Lanfachreth, Brithdir a Rhydymain ac yn holi sydd angen iddynt rannu casgliad o Lanfachreth yn unig gyda ni. Rhoddwyd gwybod iddynt (14/3/2025) sydd ddim angen iddynt wneud ymgynghoriad Llanfachreth yn ar wahân.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr (14/3/2025) oddi wrth Hwylusydd Tai Gwynedd yn rhoi gwybod mae Cyngor Gwynedd angen cwblhau yr ymgynghoriad erbyn dechrau mis Mai. Maent hefyd yn gofyn am leoliad i gynnal diwrnod agored yn Llanfachreth ac yn awgrym ei gynnal ar 9/4/2025.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Hwylusydd Tai Gwynedd does dim angen cael diwrnod agored heb i ni gael gweld y cynlluniau sy'n cael eu paratoi gan Adran Tai ac Eiddo.

## **6. Gohebiaeth**

a. Llythyr (21/2/2025) oddi wrth Priffyrdd Meirionnydd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod ni fydd bin hael yn cael ei roi wrth Gernant, Drwsynant. Mae'r llythyr yn esbonio y rheswm. (Gweler Cofnodion Ionawr 21, 2025, Eitem 10.a.)

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr (26/2/2025) i Priffyrdd yn gofyn am y rheswm pam maent yn gwrthod rhoi bin halen yn y lleoliad sy'n beryglus ac enwedig yn ystod rhew ac eira.

Penderfynwyd atgoffa'r Adran mae angen y bin halen.

b. Llythyr (20//2/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgáu dogfennau ymwneud â Chanllawiau Digidol: Ystyriaethau ar gyfer Cadw Dogfennau, Rheoli Peiriannau, Digideiddio Cyflenwi Gwasanaethau, Defnyddio Offer Cydweithio Swyddfa, Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol, Cyngor ar Ddiogelwch Digidol i Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru, Cyflawni Gwaith y Cyngor yn Ddigidol a Hyfforddiant ar-lein rhad ac am ddim,

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Llythyr (24/2/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgáu dogfennau: Trefnu Digwyddiadau Llwyddiannus, Cofrestr Asedau a Gweinyddu Cyfarfodydd.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ch. Llythyr (11/3/2025) oddi wrth Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn rhoi gwybod maent wedi cyhoeddi eu Penderfyniad Terfynol ar gyfer Arolwg 2026 o etholaethau'r Senedd. Bydd 16 etholaeth newydd yn y Senedd drwy baru 32 etholaeth seneddol y Deyrnas Unedig yng Nghymru – enw etholaeth ni yw Gwynedd Maldwyn. Bydd yn dod i rym yn etholiad y Senedd 2026.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

d. Llythyr (14/3/2025) oddi wrth Un Llais Cymru gyda dwy ddogfen ar Ganllawiau Digidol pellach ar gyfer ein Cyngor.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

**7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Llythyr (19/2/2025) oddi wrth y Parc yn amgáu dogfen ar: cyfarwyddyd ar wahanol fathau o ddatblygiadau, pwrpas ymgynghori ar geisiadau cynllunio, a ffyrdd i gynorthwyo'r Awdurdod drwy nodi achosion o dor-rheolaeth cynllunio.

Anfonwyd y llythyr a'r ddogfen i'r aelodau

O'r ddogfen, nodi'r ymateb Cyngor i geisiadau cynllunio:
Wrth lunio ymateb i gais, dylid mynegi barn mewn termau clir a diamwys.
Argymhellir bod Cyngor Cymuned yn **ymateb mewn un o dair ffordd :**
1) Cefnogi
2) Gwrthod
3) Dim sylwadau / Niwtral
Os yw'r Cyngor Cymuned yn bwriadu ymateb naill ai'n cefnogi neu'n gwrthwynebu cynnig, rhaid darparu rhesymau cynllunio cadarn.
**Sylwer: Os nad oes rheswm wedi ei roi, ni fydd yr Awdurdod yn gallu ystyried eich sylwadau wrth benderfynu ar y cais.**
Lle nad oes gan y Cyngor Cymuned unrhyw sylwadau y maent yn dymuno eu gwneud, neu os yw eu barn ar y cynnig yn niwtral (h.y. nid ydynt yn dymuno'n benodol eu cefnogi na'u gwrthwynebu), gwnewch hyn yn glir.

b. Llythyr (3/3/2025) oddi wrth y Parc am Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Canllaw Cynllunio ynglŷn rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau (ail gartref) a llety gwyliau tymor hir o dan Cyfarwyddyd Erthygl 4. Os mae sylwadau i'r ymgynghoriad maent eu hangen cyn 14/4/2025.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

**8. Materion Ariannol**

a. Llythyr (24/2/2025) oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Adroddiad Blynyddol 2025 – 2026. O'r adroddiad am Cynghorau Cymuned a Thref – tudalennau 26-29:

Taliadau am gostau i weithio gartref – Rhaid i bob cyngor dalu £156 y flwyddyn i'w aelodau at wres, golau, ynni a band eang,

Lwfans i'r aelodau am fynychu digwyddiadau. Ni ddylai swm fod yn fwy na £30. Mae'r taliad yn ddewisol, a dylai penderfynu ar ddylai / beidio gwneud taliadau cael ei wneud yn y Cyfarfod Blynyddol.

Mae tabl yn rhestru taliad at ddigolledu am golled ariannol.
Anfonwyd y llythyr a'r adroddiad i'r aelodau.

b. Llythyr (25/2/2025) oddi wrth Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth yn diolch am ein rhodd o £350.

c. Llythyr (27/2/2025) oddi wrth Llên y Llannau yn diolch am ein rhodd o £50.

ch. Llythyr (7/3/2025) oddi wrth Ambiwlans Awyr Cymru yn diolch am ein rhodd o £250.

d. Llythyr (14/3/2025) oddi wrth Pwyllgor Neuadd Llanfachreth yn diolch am ei rhodd o £800.

dd. Llythyr (8/3/2025) oddi wrth Urdd Gobaith Cymru yn diolch am ein rhodd o £250.

e. Llythyr (13/3/2025) oddi wrth Neuadd Bentref Rhydymain yn diolch am ein rhodd o £800.

f. Llythyr (25/2/2025) oddi wrth Marie Curie. Maent angen cymorth ariannol.

ff. Llythyr (28/2/2025) oddi wrth GISDA. Maent angen cymorth ariannol.

g. Llythyr (28/2/2025) oddi wrth Cymru o Forwyr, Awyrenwyr a'u Teuluoedd – Elusen y Lluoedd Arfog. Maent angen cymorth ariannol.

h. Bil (2/3/2025) am £233.88 oddi wrth Elfed ap Gomer am adnewyddu gwefan y Cyngor am y flwyddyn a diweddaru'r wefan yn llwyr gan ddefnyddio fersiynau diweddaraf y cydrannau sy'n ei chynnal.

Penderfynwyd talu'r bil.

i. Llythyr (4/3/2025) oddi wrth Archwilio Taliadau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod maent yn cynnal archwiliad o'u gweithrediadau Cyfrifon Taladwy.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau gyda nodyn yn gofyn os maent yn cytuno gyda'r Clerc mae DIM yw ein hateb.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Archwilio Taliadau ein hateb yw DIM.

j. Llythyr (5/3/4/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybodaeth ar beth maent yn ei wneud a gwasanaeth maen yn ei roi . Amgáu mae ffurflen i ail ymaelodi a'r ffi yw £179.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau

Penderfynwyd talu'r ffi.

l. Llythyr (14/3/2025) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn cynnwys:
P60 am y flwyddyn yn diweddu 5/4/2025.
P30 'summary'.
Bil am £228.00 am gwblhau PAYE am y flwyddyn yn gorffen 5/4/2024 ac am roi gwybodaeth gyflog fisol i HMRC ar-lein i gydymffurfio â RTI a pharatoi tystysgrif P60 am ddiwedd y flwyddyn i'r gweithiwr.

Penderfynwyd talu'r bil.

ll. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/2/2025: £1,187.89.
Balans yn y banc ar 29/2/2025: £8,355.44.

**9. Archwilio**

a. Anfonwyd llythyr (10/3/2025) i Archwilio Cymru yn rhoi gwybod nid yw'r Cyngor wedi derbyn adroddiad ar Archwiliad Allanol Llawn o'r ddau gyngor ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024.

**10. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

**11. Materion yr Aelodau**

a. Mae Mr W. Barry Jones yn dymuno dod yn ôl i'r Cyngor.

Penderfynwyd ei wahodd yn ôl i'r Cyngor ac i gynrychioli Ward Machreth.

Mi fydd gan Ward Machreth 7 aelod (Gerallt, Meurig, Robin, Peredur, Llion, Karen a Barry). Nifer o gynghorwyr sydd i fod – 8.
Mae gan Ward Brithdir 3 o gynghorwyr - Emlyn, Geraint, a Rhun. Nifer o gynghorwyr sydd i fod – 4.

b. Pan fydd unigolyn o'r gymuned angen gwasanaeth gan y Cyngor, hoffai'r Clerc cael nodyn gan yr unigolyn yn rhoi gwybod beth mae ei angen a pam.

Penderfynwyd derbyn yr awgrym.

c. Penderfynwyd i'r aelodau archwilio'r biniau halen yn y gymuned a nodi os mae halen yn cael ei ddefnyddio.

Llofnod: Dyddiad:

------------